llunio fy stryd

cystadleuaeth ddylunio i blant rhwng 7 ac 11 oed

Ysgol Pensaernïaeth Cymru
Prifysgol Caerdydd
Gwanwyn 2020

Cyflwyniad

Mae *Llunio Fy Stryd* yn gystadleuaeth rad ac am ddim sy'n herio plant i ddylunio eu cartrefi eu hunain. Fel arfer, mae'n cael ei hanelu at ddosbarthiadau ysgol gynradd CA2. Eleni rydym wedi newid y gystadleuaeth fel y gall dysgwyr weithio ar yr aseiniad gartref, gyda chymorth eu rhieni neu'u gwarcheidwaid.

Mae'r gweithgaredd yn gyflwyniad ymarferol a difyr i faes pensaernïaeth a dylunio.

Drwy gymryd rhan yn y gweithgaredd hwn, bydd plant yn ystyried pa agweddau ar 'gartref' a 'stryd' all wneud cymdogaethau ffyniannus. Gall plant dreulio cyn lleied neu gymaint o amser ag yr hoffent ar y gweithgaredd.

Bydd y cynigion buddugol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol, a gobeithiwn gynhyrchu llyfr ar-lein o'r syniadau gorau.

Enghraifft o waith dylunio disgybl unigol o'r gystadleuaeth y flwyddyn flaenorol.

Dylai plant ddechrau drwy edrych ar y sleidiau rhagarweiniol – naill ai ar eu pennau eu hunain, neu gydag oedolyn yn ddelfrydol. Dylech chi drafod pob un o'r saith pwnc allweddol wedi'u cynnwys, ynghyd â'r enghreifftiau ategol.

Ar ôl i chi edrych ar y sleidiau gyda'ch gilydd, bydd y dysgwyr yn barod i ddechrau dylunio. Mae'n syniad da adolygu eu gwaith dylunio wrth iddo fynd yn ei flaen, a thrafod sut mae eu dyluniad yn ymateb i'r saith pwnc.

Dylid annog plant i arlunio A gwneud modelau o'u gwaith dylunio. Bydd offer gwahanol yn eu galluogi i ddatblygu eu gwaith dylunio mewn ffyrdd gwahanol. Gellir ymgymryd â'r gwaith dylunio â llaw, ar y cyfrifiadur – neu'r ddau.

Os oes mwy nag un plentyn yn gweithio ar y gystadleuaeth, ar ôl iddynt ddylunio eu cartrefi, gallan nhw ystyried sut gallen nhw ddod â'u cartrefi at ei gilydd. Gallan nhw drafod beth arall allai fod ei angen arnynt i wneud cymuned, a sut brofiad fyddai byw ynddi. Os nad oes ond un plentyn sy'n gweithio ar y gystadleuaeth, anogwch nhw i wneud mwy nag un cartref, fel y gallan nhw barhau i ystyried dyluniad y gymdogaeth ehangach.

Ar ôl i chi orffen eich dyluniadau, llenwch Gofnod y Cyfranogwr a'i ebostio i shapemystreet@caerdydd.ac.uk. Byddwn yn cyhoeddi'r gwaith gorau ac yn gwneud llyfr ohono gobeithio...

Mae **cofrestru** am ddim. I gofrestru, ebostiwch: shapemystreet@caerdydd.ac.uk

Beth fydd ei angen arnoch:

- **Sleidiau rhagarweiniol**. Ebostiwch y cysylltiad uchod i gael copi pdf
- **Deunyddiau.** Gallwch ddefnyddio unrhyw beth. Deunyddiau ailgylchu'r cartref efallai? Byddwch yn greadigol...
- **Cofnod y cyfranogwr.** Byddwn yn anfon hwn atoch ar ôl i chi ebostio. Llenwch e a'i ddychwelyd drwy ebost.

Nodau'r gweithgaredd:

Mae'r nodau allweddol canlynol i weithgaredd Llunio Fy Stryd:

- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd dylunio.
- Ysgogi trafodaeth ynghylch cymuned, cymdogaeth a lle.
- Cyfuno dysgu gwyddoniaeth a thechnoleg ag ymarferion creadigol.
- Codi proffil gyrfaoedd mewn dylunio a'r diwydiannau creadigol.



Bydd gwaith y disgyblion yn cael ei gasglu ynghyd i ddylunio cymuned newydd.

Mae'r gweithgaredd dylunio hwn yn cyflwyno pump o feysydd dysgu'r *Cyfnod Sylfaen*:

datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Bydd plant yn datblygu dealltwriaeth o ffactorau sy'n cyfrannu at gymuned, cymdogaeth, cymeriad a lle.

sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

Bydd plant yn cynnal trafodaeth am eu cartrefi a'u cymdogaethau, a'u syniadau ynghylch sut i wella'r lleoedd hyn.

datblygiad mathemategol

Bydd plant yn gweithio â deunyddiau ailgylchu i adeiladu siapau a gofodau, gan gymhwyso sgiliau rhifedd / ddatblygu dealltwriaeth sylfaenol o ddwysedd.

gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

Caiff y plant eu hannog i feddwl am eu cymdogaethau eu hunain, ond hefyd i ddysgu am wahanol gymunedau a ffyrdd o fyw.

datblygiad creadigol

Caiff y plant eu hannog i archwilio cysyniadau creadigol a rhannu syniadau ar gyfer creu lleoedd ac adeiladu cymunedau, fel unigolion ac fel dosbarth.